`Y Gwir yn Erbyn y Byd!`

Seren Tan Gwmwl

ffansin hanes annibynnol !

Rhif 3
Haf 1996

£1

SOCIALISMO O MUERTE !

MAE HANES YN DOD ADREF !

Y Bwrdd Golygyddol

Golygyddol

DYMA`R NEGES ...

`Mae rhyddid yn golygu ymroddiad, ymdrechu parhaol, rheoli yr hunan yn llwyr, aberthu ar bob achlysur. Mae felly`n anoddach byw fel dyn rhydd na byw fel caethwas, a dyma paham mae pobl yn gwrthod eu rhyddid mor aml; oherwydd mae rhyddid, mewn gwirionedd, yn wahoddiad i fywyd o ddewrder, ac weithiau arwriaeth`.

GEORGES LEFEBVRE

Fe ddywedodd Ken Livingstone yn 1987 ....

`Politicians who raise the hopes and capture the imaginations of ordinary women and men only to betray that trust do more to undermine faith in democracy than any fascist could ever do.`

Troi i`r chwith - fel Edward Heath; troi i`r dde - fel Tony Blair!

Codiad!

(26%)

Nawr mae 2 filiwn a hanner o bobl yn y 10% cyfoethocaf mewn cymdeithas yn ennill mwy gyda`i gilydd na`r 13 miliwn yn y 50% lleiaf cyfoethog.

Ac ym mis Gorffennaf 1996 mae Tony Blair yn penderfynu cael gwared ar yr hyn oedd yn weddill o Sosialaeth o bolisiau`r Blaid Lafur. Mae hefyd yn gwneud *`U-turn`* enfawr ar ddatganoli ac yn cachu ar Gymru fel y gwnaeth Kinnock, un o`i ragflaenwyr. Diolch yn fawr iawn Mr. Blair. Rwyt ti`n arweinydd ysbrydoledig gyda gweledigaeth glir a phendant!!

BYDD **HANES** YN DY FARNU.

Mae Renton yn dweud ...

`Dewiswch fywyd. Dewiswch swydd. Dewiswch yrfa. Dewiswch deulu. Dewiswch blydi teledu mawr, dewiswch beiriannau golchi, ceir, chwaraewyr CD a tin openers trydanol. Dewiswch iechyd, colestorol isel ac yswiriant deintyddol. Dewiswch forgais fixed-interest-repayments. Dewiswch dy ar gyfer prynwyr tro cyntaf. Dewiswch eich ffrindiau.

Dewiswch leisurewear a cases i fatsho. Dewiswch three piece suite ar hp mewn cyfres o ddefnyddiau gwahanol. Dewiswch DIY a meddwl pwy uffarn y` chi ar fore dydd Sul. Dewiswch eistedd ar y soffa yn gwylio game shows sy`n lladd yr ymennydd a dinistrio`r enaid a`r ysbryd, yn stwffio junk food i`ch ceg. Dewiswch bydru ar ddiwedd hyn i gyd, yn pisho`ch diwedd mewn rhyw gartref diflas yn ddim mwy nag embaras i`r brat hunanol, hanner call wnaethoch chi alw`n fab i gymryd eich lle. Dewiswch eich dyfodol. Dewiswch fywyd.

Ond pam fydden i ishe gwneud rhywbeth fel `na. Rwy`n dewis peidio dewis bywyd. Rwy`n dewis rhywbeth arall. A`r rheswm? Does dim rhesymau. Pwy sydd angen rhesymau pan fod gyda chi ...

Seren Tan Gwmwl !

Seren Tan Gwmwl - cyffur meddyliol!

Rydyn ni nawr yn 1996. Mae gwledydd Prydain yn cael eu rheoli gan un grwp o wleidyddion, tra bod arweinydd yr Wrthblaid yn ysu am gael bod yr un peth â nhw. Mae `na syniad sy`n gyffredin ymhlith gwleidyddion bod pawb a phopeth yn gret - mae polisiau ariannol Thatcher wedi rhannu cymdeithas, ac ar yr un pryd mae consensws ymhlith gwleidyddion bod y polisiau hyn yn iawn, ac yn gweithio.

Golygydd: Owen Llywelyn
Is-Olygyddion: Daniel Davies
Tim Tillman

Gwnewch y cysylltiadau; chwalwch eich cadwyni!

Seren Tan Gwmwl - 201.



SEREN TAN GWMMWL;

NEU

YCHYDIG SYLW

AR

FRENHINOEDD, ESCOBION, ARGLWYDDI, &c.

A

LLYWODRAETH LLOEGR

YN GYFFREDIN.

Wedi ei ysgrifennu er mwyn y Cymru uniaith.

GAN

JOHN JONES, GLAN-Y-GORS, BARDD.

Y GWIR YN ERBYN Y BYD.

" Ar y gwir mae rhagoriaeth
" O'm lleddir am wir ba waeth."

Iuan Taw.

LLUNDAIN:

ARGRAPHWYD, AC AR WERTH, GAN VAUGHAN GRIFFITHS

RHIF 169, STRAND.

PRIS SWLLT

John Jones (Jac Glan-y-Gors) - tafarnwr, bardd a`r boi oedd yn gyfrifol am gyflwyno syniadau *Rights of Man* Tom Paine i`r Cymry Cymraeg. Fe hefyd oedd yn gyfrifol am y teitl *Seren tan Gwmmwl* (1795). Roedd yn radical, yn casau esgobion, bonedd a brenhiniaeth.

Roedd yn dod o fferm Glan-y-Gors ar bwys Cerrig y Drudion, ond rhedodd i ffwrdd i Lundain pan oedd y *Press Gang* ar ei ôl. Y stori yw ei fod wedi cwympo mas gyda`r person neu`r ficer lleol, ac mai hwnnw wnaeth anfon y *press gang* ar ei ôl - un rheswm da dros gasau`r eglwys am weddill ei oes. Yn Llundain`bu`n rhedeg tafarn o`r enw y *King`s Head* yn Ludgate Street. Yn 1795 roedd yn un o gyd-sefydlwyr cymdeithas y **Cymreigyddion**, ac yn yr un flwyddyn cyhoeddodd bamffled *Seren Tan Gwmmwl*.

Yn *Seren tan Gwmmwl* bu`n dadlau dros gael gwared ar frenhinoedd, gormes a rhyfel, a chyflwynodd syniadau radical Tom Paine.

Cafodd llawer o gopiau o`r Seren Tan Gwmwl gwreiddiol eu casglu a`u llosgi gan weision y llywodraeth am eu bod yn cynnwys syniadau *`peryglus`*.



`laughing boy`
John Jones
(a.k.a. Jac Glan-y-Gors)

Mae`r rhifyn hwn yn dathlu dau-gan-mlwyddiant (+1 !) cyhoeddi pamffled John Jones: mae hefyd yn bwriadu cario `mlaen â gwaith Jac Glan-y-Gors.

Petai`r Almaen wedi ennill yr Ail Ryfel Byd !?!

1 - byddai`r enw *Von* yn gyffredin iawn yng Nghymru ee byddai Bryn Fôn yn cael ei alw`n Bryn Von Fôn; Vaughan Hughes yn Vaughan Von Hughes .....



2 - byddai Cymru`n cael ei rheoli gan eithafwyr asgell dde, hanner call, idiotig o wlad estron ....



3 - Byddai gwersylloedd ieuenctid yn cael eu sefydlu, a ieuenctid Cymru`n cael eu gorfodi gan eu rhieni i dreulio wythnos o`r haf mewn gwersyll yn rhywle fel y Bala neu Langrannog. Yn y gwersylloedd hynny byddai`r plant ifanc yn agored i ddylanwad, ac yn cael eu drilio a`u dysgu i ganu caneuon gwladgarol ....



4 - byddai Ewrop yn cael ei huno, ac yn cael ei rheoli`n ariannol gan y Bundesbank, ac yn wleidyddol gan arweinwyr yr Almaen ....



5 - byddai cynlluniau *master race* y *Fuhrer* yn sicrhau mai gan yr Almaen oedd yr athletwyr gorau. Byddai`r Almaen felly`n *dominyddu* ac yn ennill pob cystadleuaeth Ewropeaidd, fel pel-droed.

Valentine Strasser - Dawnsiwr Disgo a Chwyldroadwr!

Mae Sierra Leone yn un o wledydd harddaf Affrica a'r byd. Ers amser nawr mae wedi cael ei rhwygo gan ryfel cartref gwaedlyd. Er ei bod yng nghanol datblygu mae'n ymddangos fel peati'n dychwelyd i oes *gyntefig: yn ystod y rhyfel cartref mae* arferion fel poenydio a thorri cyrff eu gwrthwynebwyr yn ddarnau tra'u bod yn dal yn fyw wedi cael eu defnyddio gan y ddwy ochr. Yng nghanol y trasiedi mae enw un dyn wedi bod yn amlwg - Valentine Strasser. Nid yw'n fwriad clodfori'r hyn wnaeth Strasser - dim ond adrodd hanes person ifanc, diddorol, carismatig a phenderfynol.

Roedd doctoriaid yn perfformio llawdriniaeth yng ngolau'r gannwyll, ac roedd arweiwnwyr Sierra leone wedi bradychu eu pobl trwy ganiatau i gwmniau mwyngloddio fel **de Beers** i dreisio'r wlad o'i *hadnoddau.*

Aeth Strasser ati'n syth i sefydlu pwyllgorau i esbonio'r chwyldro. Cyflwynodd wasanaeth radio a theledu fel bod pobl yn gwybod beth oedd y llywodraeth yn ceisio gwneud. Roedd yn berson enigmatig; a'i arwyr ...? Nid Ho Chi *Minh, Castro a Lenin, ond Handel, Schubert a* Debussy. Roedd yn canu'r piano am ddwy awr

DARLLEDWYD HYN I GYD AR Y RADIO, GYDA'R GAN *'AIN'T NO STOPPIN' US NOW WE'RE ON THE MOVE'* GAN **McFADDEN & WHITEHEAD** YN CHWARAE YN Y CEFNDIR. DAETH HON YN GAN SWYDDOGOL Y CHWYLDRO.

Ar y dechrau aeth pethau'n dda. *O fewn 18* mis roedd chwyddiant lawr o 130% i 26%. *Cyhoeddwyd yn 1993 bod etholiadau* democrataidd yn mynd i gael eu cynnal yn

Cafodd Sierra Leone (*Mynydd y Llew*) ei enwi gan y Portiwgeaid oherwydd y swn tarannau uwchlaw'r brif ddinas *Freetown.* Caethweision wedi eu rhyddhau oedd trigolion *Freetown* a chafodd y wlad annibynniaeth wrth Brydain yn 1961. Ers 1967 mae wedi cael ei rheoli gan gyfres o lywodraethau milwrol wnaeth roi rhyddid *llwyr i'r cwmniau rhyngwladol oedd yn* mwyngloddio am ddiamwntau, aur ac *adnoddau eraill. Hynny yw, tan Ebrill 29,* 1992 pan benderfynodd capten 26 mlwydd oed yn y fyddin mai digon oedd digon; cychwynodd hwn ar gyfres o newidiadau fyddai'n newid Sierra Leone'n llwyr. Mae'r stori hon am chwyldro. Chwyldro'r Capten **Valentine Strasser**

bob dydd, ac yn treulio'r nos yn dawnsio disgo ... cyn iddo orfod troi'n unben milwrol i achub ei wlad.

Dau ddiwrnod ar ôl y CHWYLDRO aeth *Strasser ar y radio i esbonio'i syniadau...*

Roedd am wahardd allforio eitemau anghenrheidiol a bwyd. Byddai pris reis yn sefydlog. Roedd gan gwmniau fel de Beers 3 diwrnod i dalu lan a gadael y wlad, a byddai dim hawl allforio diamwntau yn y dyfodol, na mwyngloddio tan bod rheolaeth dros y diwydiant. Rhoddwyd *suggestion boxes* ym mhob pentrtef fel bod y bobl yn cael mynegi barn am y llywodraeth. Byddai'n rhoi trefn ar y wlad *ac yn cynnal etholiadau, ac yn rhoi terfyn ar y* rhyfel yn erbyn y *rebels*, yr RUF.... a chwpwl o *crackers*

Chwefror 1996, ac y byddai'r fyddin, bryd hynny, yn tynnu nôl o fywyd gwleidyddol.

Serch hynny, roedd dau gwmwl ar y gorwel; yn gyntaf y rhyfel cartref o fewn y wlad, ac yn ail y cweryl rhwng Strasser a'r *ail yn ei lywodraeth (a'i ffrind) Solomon* Musa, adawodd y wlad yn yr haf 1993.





Cam 1 - Y Freuddwyd. 1992-1993

Yn 26 mlwydd oed, Strasser oedd yr arweinydd gwlad ifancaf yn y byd. Cafodd gyfle i fynd i'r Brifysgol ond dewisiodd astudio yn yr academi *filwrol. Roedd yn dod i reoli gwlad oedd yn* gyfoethog mewn adnoddau, ond yn dlawd iawn *fel arall; yn ôl tabl Datblygiad Dynol y* Cenhedloedd Unedig hon oedd y wlad dlotaf yn y byd - dim ond 36% o'r boblogaeth oedd yn cael gofal meddygol, a dim ond 24% o oedolion oedd yn llythrennog. Doedd dim papurau newydd na gwasanaeth radio y tu fas i'r brifddinas Freetown, a dim teledu o gwbl.

*** Roedd y dydd Sadwrn olaf ym mhob mis i fod yn 'Ddiwrnod Glanhau Cenedlaethol' ble fyddai pobl yn gorfod tacluso o gwmpas eu tai, fel eu bod yn dangos balchder ynddyn nhw'u hunain unwaith eto.**

*** Roedd yn rhaid bod yn brydlon i'r gwaith. Os oedd gweithwyr yn hwyr, roedden *nhw'n gorfod wynebu cael eu gwawdio'n* gyhoeddus drwy orfod talu dirwy, a gwneud 50 *press up* o flaen eu cyd-weithwyr.**